Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# NEWYDDION: Cydnabod busnesau Gwynedd yn bencampwyr allforio Cymru

Llongyfarchiadau i Ddistyllfa Whisgi Aber Falls, DMM o Lanberis a Dr Zigs am gael eu cynnwys yn rhestr Business Live 2022 o'r 25 pencampwyr allforio gorau Cymru! I ddarllen y rhestr, ewch i:

https://bit.ly/3qfg3x1

Os oes gennych stori newyddion dda i'w rhannu – rhowch wybod i ni drwy e-bostio:

busnes@gwynedd.llyw.cymru

# YMGYRCH: Gadewch i ni roi hwb i wariant lleol ar gyfer Sul y Mamau #SulYMamau #PrynuLleol #CefnogiLleol

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol drwy gydol y gwanwyn yn parhau. Mae pecyn adnoddau i chi ei ddefnyddio, sy'n cynnwys negeseuon ar gyfer y cyfryngau a fideo wedi'i gomisiynu'n arbennig, ynghyd â GIFs a logos, ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://bit.ly/3KXqZaa

Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Bydd rhagor o ymgyrchoedd Prynu'n Lleol yn rhedeg drwy'r flwyddyn. I gymryd rhan, cysylltwch â:

prynulleol@gwynedd.llyw.cymru

# NEWYDDION: Emporiwm bwyd newydd yn Harlech yn cael sylw'r Banc Datblygu

Mae busnes newydd yn Harlech – Y Groser Harlech – wedi cael sylw mewn erthygl gan Fanc Datblygu Cymru ar ôl derbyn benthyciad micro o £50,000 i helpu i ffitio'r siop. I ddarllen mwy, ewch i:

https://developmentbank.wales/cy/newyddion-digwyddiadau/emporiwm-bwyd-newydd-i-agor-yn-harlech

# CYNALIADWYEDD: Ail-lenwi Cymru – Cymerwch ran i helpu i fynd i'r afael â llygredd plastig untro!

Nod Ail-lenwi yw cynyddu'n sylweddol argaeledd dŵr yfed o ansawdd uchel a helpu i atal llygredd plastig gyda'r App Ail-lenwi. Mae cael eich rhestru ar yr Ap Ail-lenwi yn eich cysylltu â miloedd o ddefnyddwyr apiau yng Nghymru sy'n chwilio am fannau ail-lenwi dŵr am ddim, ac yn dangos i'ch cwsmeriaid eich bod yn cymryd camau yn erbyn llygredd plastig! Mae ffilm fer esboniadol ar:

https://www.youtube.com/watch?v=QC6egykz6CE

Mae mwy o wybodaeth ar:

https://www.refill.org.uk/refill-cymru/

# BREXIT: Tariffau ar nwyddau a fewnforir i'r DU

Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar sut i wirio'r cyfraddau tariff sy'n berthnasol i nwyddau rydych chi'n eu mewnforio ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/brexit-guidance-for-businesses

# RHYBUDD: Sgamwyr yn targedu cwsmeriaid Hunanasesu

Mae CThEM yn rhybuddio cwsmeriaid i fod ar eu gwyliadwriaeth wrth i sgamwyr dargedu cwsmeriaid Hunanasesu diarwybod i geisio dwyn arian neu wybodaeth bersonol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/scammers-targeting-self-assessment-customers-hmrc-warns

## TECH: ‘Dod yn Dref SMART’ – Arddangosiad ‘Bubltown thrive’ 23 Mawrth 2022

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy’n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â’r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd. Bydd Arddangosiad Datrysiad SMART – ‘Bubltown thrive’ – ar 23 Mawrth 2022 (12:00pm-1:30pm), yn cysylltu’r dotiau rhwng profiad ar-lein ac all-lein tref, gyda un platfform sy’n cysylltu trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/o/trefi-smart-towns-cymru-33152432853

## AROLWG: Holiadur Bwletin Cefnogi Busnes Gwynedd

Diolch i bawb sydd wedi cwblhau’r arolwg hyd yn hyn a’r adborth gwych. Mae amser o hyd i gymryd rhan a dim ond ychydig funudau y bydd yn ei gymryd – ewch i:

https://bit.ly/ArolwgBwletinCefnogiBusnesGwynedd

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru